# ISA Arian Parod 90 Diwrnod

Cynlluniwyd y cyfrif cynilo hwn yn benodol ar gyfer cwsmeriaid 16 oed neu hŷn sy'n chwilio am enillion di-dreth a'r gallu i adneuo arian a chael mynediad ato ar unwaith. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr newydd sy'n byw yng Nghymru neu aelodau presennol (sy'n byw yn y Deyrnas Unedig) y mae ein cynhyrchion cynilo ar gael.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod y Gymdeithas yn derbyn trosglwyddiadau i mewn i ISAs ar hyn o bryd, i'w chyfrifon ISAs Arian Parod, cysylltwch â'ch swyddfa gangen leol i gael mwy o wybodaeth.***

SWANSEA
BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

## Blwch crynodeb – Gwybodaeth Allweddol am y Cynnyrch:

| | |
|---|---|
| Enw'r Cyfrif | ISA Arian Parod 90 Diwrnod |
| Beth yw'r gyfradd llog? | • 3.55% Di-dreth/AER (Amrywiol) Cyfraddau'n gywir ar 01.10.2025<br>• Mae llog yn amrywio ac fe'i cyfrifir yn ddyddiol ar y balans yn y cyfrif a'i dalu i'r cyfrif bob blwyddyn ar Fawrth 31.<br>• Telir llog yn gros heb i dreth gael ei dynnu. Os yw cyfanswm y llog a enillwch yn fwy na'ch Lwfans Cynilo Personol yna efallai y bydd angen i chi dalu treth yn uniongyrchol i CThEM. Am ragor o wybodaeth ewch i www.gov.uk a chwilio am 'Personal Savings Allowance'.<br>• Ystyr AER yw Cyfradd Flynyddol Gyfatebol (Annual Equivalent Rate) ac mae'n darlunio beth fyddai'r gyfradd llog pe telid y llog a'i ychwanegu'n flynyddol.<br>• Nodwch os gwelwch yn dda fod y driniaeth o ran treth a'r gyfradd llog sy'n daladwy, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob cwsmer, ac fe allant newid yn y dyfodol.<br>• Bydd y gyfradd llog ar gyfer y cyfrif hwn yn cael ei harddangos ar ein gwefan ar www.swansea-bs.co.uk er mwyn i gwsmeriaid gael mynediad a monitro o bryd i'w gilydd yn ôl y galw. |
| A all Swansea Building Society newid y gyfradd llog? | • Gall – mae cyfraddau llog yn amrywiol, sy'n golygu y gall y gyfradd llog fynd i fyny ac i lawr, a gellir eu newid ar unrhyw adeg.<br>• Byddwn ni'n rhoi 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig drwy'r post ynghylch unrhyw newid arfaethedig i'n cyfraddau llog. Byddant hefyd yn cael eu postio ar ein gwefan, www.swansea- bs.co.uk neu gallwch ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd cangen a restrir ar gefn y daflen hon, neu'u ffonio. Gellir cael manylion am gyfraddau llog cyfrifon cynilo eraill Swansea Building Society yn ein taflen 'Detholiad o Gyfrifon Cynilo' sydd ar gael drwy ymweld ag un o'n canghennau, neu'u ffonio neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Er mwyn deall pam y gallai cyfraddau gael eu gostwng, cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweinyddu Cyfrifon Cynilo. |
| Beth fyddai'r amcangyfrif o falans ar ôl 12 mis? | • Balans arfaethedig = £1,035.50 (Mae'r ffigwr hwn i bwrpasau darlunio'n unig, ac nid yw'n ystyried amgylchiadau unigol y cwsmer, yn seiliedig ar wneud adnau o £1,000 a dim adneuon ychwanegol, na chodi arian na newid i'r gyfradd llog yn ystod y cyfnod 12 mis.) |
| Sut ydw i'n agor a rheoli fy nghyfrif? | • Dim ond un cyfrif a ganiateir i unrhyw unigolyn. Ni chaniateir cyfrifon ar y cyd. (Mae hyn oherwydd cyfyngiadau system y Gymdeithas ac nid oherwydd rheoliadau ISA – efallai gall darparwyr ISA eraill ganiatáu i gyfrifon ISA Arian Parod lluosog fod yn agored i dderbyn tanysgrifiadau'r flwyddyn gyfredol)<br>• I agor cyfrif, rhaid eich bod yn preswylio yng Nghymrua dros 18 mlwydd oed. Galwch yn un o'n canghennau neu llenwch ffurflen gais a'i phostio atom ynghyd â siec yn daladwy i '(eich enw)'. I gael mwy o fanylion am ein proses Adnabod, gweler ein Taflen Profi eich Hunaniaethsydd ar gael o swyddfeydd cangen neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Lleiafswm y buddsoddiad yw £1. Penderfynir ar uchafswm y buddsoddiad gan reoliadau ISA sydd mewn grym ar y pryd. Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon gyda'r Gymdeithas yw £1.5m. (Nodwch fod gan rai cynhyrchion cynilo derfynau cynnyrch unigol. Gofynnwch i'n staff, ne gweler tudalennau we am fwy o wybodaeth.)<br>• Gellir adneuo arian â siec, archeb sefydlog, trosglwyddiad banc electronig, trosglwyddiad o gyfrif arall a ddelir gan y Gymdeithas (yn unol â Thelerau ac Amodau'r cyfrif hwnnw) neu arian parod (cyfyngir adneuon arian parod i £3,000 fesul cwsmer fesul dydd).<br>• Gallwch reoli eich cyfrif mewn cangen, dros e-bost, drwy'r post neu ar lein drwy neges ddiogel (yn ddibynnol ar feini prawf cymhwysedd Cyfrif Swansea Online, ar gael pan fyddwch chi'n clicio ar 'Cofrestru Nawr / Register Now' ar https://swansea-bs.co.uk/customer-support/online-registration). |
| Ydw i'n gallu codi arian? | • Gellir codi arian ar ddiwedd cyfnod o 90 dydd ar ôl i ni dderbyn eich hysbysiad ffurfiol i'r Gymdeithas i godi arian. Rhaid i'ch hysbysiad nodi'r swm i gael ei dynnu allan a gellir gwneud hyn drwy ymweld â ni mewn cangen. Fel arall, gallwch anfon eich cyfarwyddyd ysgrifenedig wedi'i lofnodi atom drwy'r post, dros e-bost neu drwy ein gwasanaeth ar lein Swansea Online gan ddefnyddio'r gwasanaeth negeseuo diogel.<br>• Y lleiafswm y gellir ei godi yw £1 (neu lai os yw'r cyfrif yn cael ei gau). Isafswm y balans y mae angen ei ddal yn y cyfrif hwn yw £1.<br>• Uchafswm yr arian y gellir ei godi fesul cwsmer fesul dydd yw £1,000. |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Ychwanegol | • I weld y Telerau ac Amodau Cyffredinol sy'n berthnasol i'r cyfrif hwn, gweler "Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo", sydd ar gael o'n canghennau neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Mae'r Gymdeithas yn rhan o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gellir gweld manylion y cynllun a phwy sy'n cael eu gwarchod ganddo ar www.fscs.org.uk.<br>• Fe all costau a ffioedd gwasanaeth fod yn berthnasol i'ch cyfrif. Amlinellir y rhain yn ein Toll Cynilo.<br>• Dan rai amgylchiadau, fe allwn wrthod cyfarwyddyd i weithredu cyfrif. Amlinellir yr amgylchiadau hyn yn ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo.<br>• Mae'r cyfrif at ddefnydd personol, nid ar gyfer busnes, oni bai ei fod yn un o'n cyfrifon arbennig ar gyfer sefydliadau. |
| Telerau ac Amodau Penodol ar gyfer Cyfrif ISA Arian Parod | **1. Rheoliadau ISA:**<br>1.1. Cyhoeddir cyfrifon yn unol â'r rheolau manwl a gynhwysir yn 'Rheoliadau'r Cyfrif Cynilo Unigol 1998', 'Rheoliadau'r Cyfrif Cynilo Unigol (Diwygiad) 2007', Rheoliadau'r Cyfrif Cynilo Unigol (Diwygiad Rhif 2) 2010 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddynt. ('Y Rheoliadau').<br>1.2 Rhaid i chi beidio â bod eisoes wedi tanysgrifio i ISA Arian Parod yn y flwyddyn dreth gyfredol ac eithrio trwy danysgrifiadau amnewidiol ISA hyblyg(Mae hyn oherwydd cyfyngiadau system y Gymdeithas ac nid oherwydd rheoliadau ISA - Gall darparwyr ISA eraill ganiatáu i gyfrifon ISA Arian Parod lluosog fod yn agored i dderbyn tanysgrifiadau blwyddyn gyfredol). Nid yw tanysgrifiadau amnewidiol yn cyfrif fel tanysgrifiadau at ddibenion penderfynu a yw'r buddsoddwr wedi tanysgrifio i fwy nag un ISA.<br>1.3 Rhaid i'ch buddsoddiad ISA fod yn eich perchnogaeth fuddiol a rhaid iddo aros felly, ni cheir ei ddefnyddio fel gwarant ar gyfer benthyciad.<br>1.4 Byddwn yn eich hysbysu os yw eich ISA, oherwydd unrhyw fethiant i fodloni darpariaethau'r Rheoliadau ISA, wedi dod yn ddi-rym.<br>1.5 Rhaid i'r buddsoddiad uchaf y gallwch ei wneud i'ch ISA Arian Parod mewn unrhyw un flwyddyn dreth beidio â bod yn fwy na'r terfyn Arian Parod blynyddol a bennir yn y 'Rheoliadau'.<br>1.6 Byddwn yn bodloni ein hunain bod unrhyw berson yr ydym yn dirprwyo unrhyw un o'n swyddogaethau neu gyfrifoldebau iddo o dan y telerau y cytunwyd arnynt gyda chi yn gymwys i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau hynny.<br>**2. Agor Cyfrifon a Therfynau Buddsoddiadau:**<br>Mae'r ISA hwn ar agor i gwsmeriaid ISA newydd a phresennol. Ar hyn o bryd rydym ni'n derbyn trosglwyddiadau i mewn i ISAs (ond mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i newid hyn ar unrhyw adeg heb roi rhybudd).<br>Gallwch danysgrifio i un ISA Arian Parod yn unig yn ystod y flwyddyn dreth bresennol oni bai eich bod chi'n gwneud tanysgrifiadau amnewidiol i ISA hyblyg (Mae hyn oherwydd cyfyngiadau system y Gymdeithas ac nid oherwydd rheoliadau ISA - Gall darparwyr ISA eraill ganiatáu i gyfrifon ISA Arian Parod lluosog fod yn agored i dderbyn tanysgrifiadau blwyddyn gyfredol). Ni ellir dal cyfrifon ISA ar y cyd. Gellir agor cyfrifon ISA gyda thanysgrifiad (ar gyfer cwsmeriaid cymwys sy'n 18 oed a hŷn) yn ddibynnol ar y cyfyngiadau buddsoddi. I agor cyfrif, rhaid i'r ymgeisydd (ymgeiswyr) fod yn 18 ed neu hŷn.<br>Lleiafswm y buddsoddiad yw £1. Nodwch os gwelwch yn dda na all uchafswm y buddsoddiad a wnewch i'ch ISA Arian Parod mewn un flwyddyn dreth fod yn uwch na'r terfyn arian parod blynyddol a benodwyd yn y 'Rheoliadau', yn unol â rheoliadau ISA.<br>Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon gyda'r Gymdeithas yw £1.5m. (Nodwch fod gan rai cynhyrchion cynilo derfynau cynnyrch unigol. Gofynnwch i'n staff, ne gweler tudalennau we am fwy o wybodaeth.)<br>3. **Buddsoddi Pellach:**<br>Gallwch ychwanegu at eich cynilon ar unrhyw adeg, drwy alw yn eich cangen leol â'ch adnau. Os yw'n fwy cyfleus, gallwch bostio'r adnau, gwneud taliad drwy drosglwyddiad banc electronig neu gynilo ag archeb sefydlog o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a leolir yn y DU. *Sylwer, pan fydd gan gwsmer(iaid) presennol a agorodd gyfrif ar neu cyn 28.02.23 falans ar draws cyfrifon o fwy na £500k, ni fyddant yn cael adneuo arian pellach os yw eu balansau cyfun yn fwy na'r symiau hyn.<br>4. **Codi arian / Cau:**<br>Gellir codi arian ar ddiwedd cyfnod o 90 dydd ar ôl i ni dderbyn eich hysbysiad ffurfiol i'r Gymdeithas i godi arian. Rhaid i'ch hysbysiad nodi'r swm i gael ei dynnu allan a gellir gwneud hyn drwy ymweld â ni mewn cangen. Fel arall, gallwch anfon eich cyfarwyddyd ysgrifenedig wedi'i lofnodi atom drwy'r post, dros e-bost neu drwy ein gwasanaeth ar lein Swansea Online gan ddefnyddio'r gwasanaeth negeseuo diogel.<br>Os yw'r arian a godir yn lleihau'r balans i lai na'r lleiafswm balans ar y cyfrif, sef £1, gallwn gau eich cyfrif trwy roi 30 diwrnod o rybudd.<br>Caniateir i chi gau eich cyfrif ISA Arian Parod ar unrhyw adeg ond rhaid rhoi rhybudd o 90 dydd. Os byddwch chi'n cau eich cyfrif ISA Arian Parod, ni ellir ei adfer. |

| | |
|---|---|
| Telerau ac Amodau Penodol ar gyfer Cyfrif ISA Arian Parod | **ISA Hyblyg:**<br>Gellir ad-dalu arian a godwyd o'ch cyfrif yn ystod yr un flwyddyn dreth heb iddo gyfrif at eich terfynau tanysgrifio ISA blynyddol. Mae llog a delir i gyfrif arall yn ystod y flwyddyn dreth yn cael ei gyfrif fel arian a godwyd a gellir ei adneuo yn ystod yr un flwyddyn dreth heb iddo gyfrif at y terfyn tanysgrifio. Bernir bod unrhyw arian a godir yn dod yn gyntaf o danysgrifiadau'r flwyddyn gyfredol, ac wedyn o gronfeydd blynyddoedd blaenorol. Bernir bod adneuon amnewidiol yn dod yn gyntaf o gronfeydd blynyddoedd blaenorol ac wedyn o danysgrifiadau'r flwyddyn gyfredol.<br><br>Rhaid i unrhyw adferiad cronfeydd ISA hyblyg y flwyddyn flaenorol gael eu gwneud i'r cyfrif y codwyd yr arian ohono, ac yn yr un flwyddyn dreth.<br><br>Ni ellir talu'n ôl unrhyw arian a godwyd ac na chafodd ei adfer o fewn yr un flwyddyn dreth heb iddo gyfrif tuag at eich lwfans ISA blynyddol.<br><br>**5. Llog:**<br>Mae'r llog yn amrywiol ac yn cael ei gyfrif yn ddyddiol ar y balans yn y cyfrif. Ar yr amod bod y cyfrif yn cydymffurfio â'r 'Rheoliadau' bydd yr holl log sy'n ddyledus yn rhydd o drethiant y DU. Gellir newid trethiant ISAs ar unrhyw adeg heb rybudd.<br><br>Bydd llog yn cael ei gredydu i'r cyfrif ar ddiwedd diwrnod gwaith ar 31 Mawrth yn flynyddol.<br>Anfonir datganiad blynyddol ar 31 Mawrth.<br><br>**6. Trosglwyddo Allan o ISA:**<br>Yn ôl eich cyfarwyddyd, gellir trosglwyddo eich ISA, neu ran o'ch ISA, i reolwr ISA arall yn unol â Rheoliadau ISA sy'n ymwneud â throsglwyddiadau.<br><br>Gallwch drosglwyddo eich tanysgrifiadau ISA Arian Parod mewn blwyddyn gyfredol yn gyfan gwbl i ISA Arian Parod arall gyda rheolwr ISA arall. Rhaid i'r trosglwyddiad fod y swm cyfan a gynilwyd yn eich ISA Arian Parod, yn y flwyddyn dreth honno, hyd at ddiwrnod y trosglwyddiad.<br><br>Pan fyddwch chi'n trosglwyddo eich tanysgrifiadau blwyddyn gyfredol o un math o ISA i un arall mae'r tanysgrifiadau'n cael eu trin fel pe baent yn cael eu gwneud i reolwr yr ISA sy'n eu derbyn. Er enghraifft, os yw tanysgrifiadau ISA Arian Parod eich blwyddyn gyfredol yn cael eu trosglwyddo i ISA stociau a chyfranddaliadau, cânt eu trin fel petaent wedi'u gwneud i'r ISA stociau a chyfranddaliadau felly gallwch danysgrifio i ISA Arian Parod yn dilyn y trosglwyddiad yn ddarostyngedig i'r blynyddol terfyn tanysgrifio.<br><br>Gallwch drosglwyddo unrhyw danysgrifiadau blwyddyn dreth flaenorol yn gyfan gwbl neu'n rhannol i ISA Arian Parod neu fath arall o ISA a ddelir gyda rheolwr ISA arall, heb iddo effeithio ar eich lwfans buddsoddi ISA blynyddol ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol.<br><br>Caniateir codi arian yn rhannol o'r ISA Arian Parod hwn.<br><br>Rhaid i drosglwyddiadau o un ISA Arian Parod i ISA Arian Parod arall ddigwydd o fewn 15 diwrnod busnes ar ôl derbyn cyfarwyddiadau'r trosglwyddiad gan reolwr yr ISA newydd.<br><br>**7. Telerau ac Amodau:**<br>Mae'r Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol hyn yn berthnasol i'r cyfrif hwn yn ogystal â'n Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Cyfrifon Cynilo. Pan fydd unrhyw anghysondeb rhwng y Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Cyfrifon Cynilo a'r Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol, y Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol fydd yn berthnasol. |

**Mae'r wybodaeth a ddarperir yn fersiwn gryno o nodweddion allweddol y cyfrif cynilo, ac ni fwriedir iddynt fod yn lle darllen y telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r cyfrif.**


SWANSEA BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

**Caerfyrddin**
13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

**Y Bont-faen**
75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

**Y Mwmbwls**
496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

**Abertawe**
1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk



Awdurdodir Swansea Building Society gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol: 206066

fscs Protected